# Newsletter

Issue #2



Welcome to the latest edition, and first bilingual version, of our newsletter. This issue is packed full of interesting information about our team, its work and exciting plans for the future. Lizzie has provided a fantastic summary of recent achievements, so I will not repeat that here – suffice to say that Lizzie has built a brilliant team around her, and together they are transforming Rekindle wonderfully into the service we foresaw when we first produced our five-year development strategy. As a board, we have gelled with our newly recruited trustees, which, in a similar way to how the team is now functioning, is delivering real benefit in terms of directing Rekindle's activities to bring the strategy to life.

The future looks increasingly bright for Rekindle as we continue to grow and develop the service in Newtown. As always, everything depends on the generosity of our funders, which to date has been amazing. We cannot be complacent though, so I take this opportunity to mention Frances Carlile's sterling efforts and to thank everyone who has helped support the vital work our team delivers, especially at a time when life has become more costly for everyone.

Finally, we wish Lizzie every blessing as she embarks on the new adventure that motherhood will certainly be, and we look forward to seeing her again in the not-too-distant future. At the same time, we offer Jodie our support and best wishes as she steps up to fill Lizzie's role during her absence on maternity leave.

Thank you for your interest and please spread the word!

Gerard Bland
Vice-chair

# Cylchlythyr

Rhifyn #2

Croeso i rifyn diweddaraf, a fersiwn dwyieithog cyntaf, ein cylchlythyr. Mae'r rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth ddiddorol am ein tîm, ei waith a chynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol. Mae Lizzie wedi darparu crynodeb gwych o gyflawniadau diweddar, felly nid wyf am ailadrodd hwnnw yma – digon yw dweud bod Lizzie wedi adeiladu tîm gwych o'i chwmpas, a gyda'i gilydd maent yn trawsnewid Ail-ddeffro yn rhyfeddol i'r gwasanaeth a ragwelwyd gennym pan gynhyrchom ein strategaeth ddatblygu bum-mlynedd am y tro cyntaf. Fel bwrdd, rydym wedi meithrin perthnasoedd gwych gyda'n hymddiriedolwyr sydd newydd eu recriwtio, sydd, mewn ffordd debyg i'r ffordd y mae'r tîm yn gweithredu nawr, yn sicrhau budd gwirioneddol o ran cyfeirio gweithgareddau Ail-ddeffro i ddod â'r strategaeth yn fyw.

Mae'r dyfodol yn edrych yn fwyfwy disglair i Ail-ddeffro wrth i ni barhau i dyfu a datblygu'r gwasanaeth yn y Drenewydd. Fel bob amser, mae popeth yn ddibynnol ar haelioni ein cyllidwyr, sydd wedi bod yn anhygoel hyd yma. Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon, felly achubaf ar y cyfle hwn i sôn am ymdrechion rhagorol Frances Carlile ac i ddiolch i bawb sydd wedi helpu i gefnogi'r gwaith hanfodol y mae ein tîm yn ei gyflawni, yn enwedig ar adeg pan fo bywyd wedi mynd yn fwy costus i bawb.

Yn olaf, dymunwn bob bendith i Lizzie wrth iddi gychwyn ar yr antur newydd y bydd mamolaeth yn sicr o fod, ac edrychwn ymlaen at ei gweld eto yn y dyfodol agos. Ar yr un pryd, rydym yn cynnig ein cefnogaeth a'n dymuniadau gorau i Jodie wrth iddi gamu i fyny i lenwi rôl Lizzie yn ystod ei habsenoldeb ar gyfnod mamolaeth.

Diolch am eich diddordeb a lledaenwch y neges!

Gerard Bland
Is-gadeirydd

## A Message from Lizzie

*Our Service Delivery Manager, Lizzie Cockle, is pleased to share some of the exciting changes that have taken place over the year, and Rekindle's vision for the future:*

Rekindle has undergone tremendous change over the last twelve months;

- We have grown from a staff team of one to a team of four, including a manager, administrator, recovery practitioner and a counsellor. The close-knit team are dedicated, enthusiastic and supportive, creating a warm and welcoming atmosphere within the building.
- We are supported by three volunteers, including trainee counsellors and admin support. In the autumn, we will welcome three additional volunteers to offer extra administrative support and group activities.
- We have welcomed two new trustees to the board: Dr Richard Stratton as an additional Clinical Governance Trustee, and Fred Mathieu as Treasurer. Both come with a wealth of expertise and experience, and are valued members of the board.
- At the time of writing, we have received 125 referrals since our re-launch in November 2022, across both the 1-2-1 Recovery Support and Counselling services.
- We have developed our service delivery processes and procedures to include updated policies and meaningful record keeping, outcomes measurement and evaluation data, including the implementation of a new online case management system so we can move away from paper record keeping and into the 21st century!
- We are grateful to have received ongoing and new financial support from a range of funders, trusts and individual donors.
- We have developed our partnership working with local statutory and third sector organisations, and continue to build close working relationships within the local community.

## Neges gan Lizzie

*Mae ein Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Lizzie Cockle, yn falch o rannu rhai o'r newidiadau cyffrous sydd wedi digwydd dros y flwyddyn, a gweledigaeth Ail-ddeffro ar gyfer y dyfodol:*

Mae Ail-ddeffro wedi mynd trwy newid aruthrol dros y deuddeg mis diwethaf;

- Rydym wedi tyfu o dîm o un aelod staff i dîm o bedwar, gan gynnwys rheolwr, gweinyddwr, ymarferydd adferiad a chwnselydd. Mae'r tîm clos yn ymroddedig, brwdfrydig a chefnogol, gan greu awyrgylch cynnes a chroesawgar o fewn yr adeilad.
- Cawn ein cefnogi gan dri gwirfoddolwr, gan gynnwys cwnselwyr a swyddogion cymorth gweinyddol dan hyfforddiant. Yn yr hydref, byddwn yn croesawu tri gwirfoddolwr ychwanegol i gynnig cymorth gweinyddol ychwanegol a gweithgareddau grŵp.
- Rydym wedi croesawu dau ymddiriedolwr newydd i'r bwrdd: Dr Richard Stratton fel Ymddiriedolwr Rheolaeth Glinigol ychwanegol, a Fred Mathieu fel Trysorydd. Mae gan y ddau gyfoeth o arbenigedd a phrofiad, ac maent yn aelodau gwerthfawr o'r bwrdd.
- Ar adeg ysgrifennu hwn, rydym wedi derbyn 125 o atgyfeiriadau ers ein hail-lansiad ym mis Tachwedd 2022, ar draws y gwasanaethau Cymorth Adfer a Chwnsela un i un.
- Rydym wedi datblygu ein prosesau a'n gweithdrefnau darparu gwasanaeth i gynnwys polisïau wedi'u diweddaru a chadw cofnodion ystyrlon, data mesur canlyniadau a gwerthuso, gan gynnwys gweithredu system rheoli achosion ar-lein newydd fel y gallwn symud i ffwrdd o gadw cofnodion papur ac i'r 21ain ganrif!
- Rydym yn ddiolchgar ein bod wedi cael cymorth ariannol newydd a pharhaus gan amrywiaeth o gyllidwyr, ymddiriedolaethau a rhoddwyr unigol.
- Rydym wedi datblygu ein gwaith partneriaeth gyda sefydliadau statudol a thrydydd sector lleol, ac yn parhau i feithrin perthnasoedd gwaith agos o fewn y gymuned leol.

Looking ahead to the next twelve months, Rekindle has plans in the pipeline to continue to grow the staff and volunteer team to meet increasing demand, to seek out new fundraising opportunities and secure further funding, and to develop a new website. Looking further into the future, our vision is to expand our service delivery outside of Newtown and further afield within Mid Wales, and to open a community café which will provide volunteering, and eventually employment, opportunities to clients.

We are grateful for the ongoing support that we receive as Rekindle continues to grow and change to meet the expanding need of our local young people. If you wish to support us in any way possible, please don't hesitate to get in touch with us. For now, as I take some time off for maternity leave, I will leave Rekindle in the capable hands of our new Service Delivery Manager (Maternity Cover), Jodie Hughes, and will look forward to returning next year to continue to drive the charity towards achieving our vision.

*Lizzie*

Gan edrych ymlaen at y deuddeg mis nesaf, mae gan Ail-ddeffro gynlluniau ar y gweill i barhau i dyfu'r tîm staff a gwirfoddolwyr i ateb y galw cynyddol, i chwilio am gyfleoedd codi arian newydd a sicrhau cyllid pellach, ac i ddatblygu gwefan newydd. Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, ein gweledigaeth yw ehangu ein darpariaeth gwasanaeth y tu allan i'r Drenewydd ac ymhellach o fewn y Canolbarth, ac agor caffi cymunedol a fydd yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli, ac yn y pen draw, cyflogaeth i gleientiaid.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus a gawn wrth i Ail-ddeffro barhau i dyfu a newid i ddiwallu anghenion cynyddol ein pobl ifanc leol. Os hoffech ein cefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl, mae croeso i chi gysylltu â ni. Am y tro, wrth i mi gymryd peth amser i ffwrdd ar gyfer absenoldeb mamolaeth, byddaf yn gadael Ail-ddeffro yn nwylo galluog ein Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth newydd (Cyfnod Mamolaeth), Jodie Hughes, ac edrychaf ymlaen at ddychwelyd y flwyddyn nesaf i barhau i yrru'r elusen tuag at wireddu ein gweledigaeth.

*Lizzie*

## MAKE YOUR CONTRIBUTIONS GO FURTHER WITH GIFT AID

We are delighted to announce that we are now registered for Gift Aid which means that if you are a UK tax payer, we receive an additional 25p from HMRC for every £1 you donate. This is at no extra cost to you (or us), so please take a moment to complete and return the gift aid form.

*If you have already registered a Gift Aid declaration with us, please contact us to let us know of any change of address or change of circumstances.*

Download our Gift Aid Form

## GWNEWCH EICH CYFRANIADAU I FYND YMHELLACH GYDA RHODD CYMORTH


Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod bellach wedi cofrestru ar gyfer Rhodd Cymorth sy'n golygu, os ydych yn talu treth yn y DU, ein bod yn derbyn 25c ychwanegol gan Gyllid a Thollau EF am bob £1 a roddwch. Nid yw hyn yn golygu unrhyw gost ychwanegol i chi (neu ni), felly cymerwch funud i gwblhau a dychwelyd y ffurflen rhodd cymorth.

*Os ydych eisoes wedi cofrestru datganiad Rhodd Cymorth gyda ni, cysylltwch â ni i roi gwybod i ni am unrhyw newid cyfeiriad neu newid mewn amgylchiadau.*

*Lawrlwythwch ein Ffurflen Rhodd Cymorth*

## Update on Ruth Can Run

In our last issue we shared news about Ruth's self-set challenge to run a half marathon, full marathon and an ultra-marathon from April to July 2023. We are delighted to announce that after months of training and preparation Ruth's hard work has paid off. Not only has she completed her personal challenge but she has also raised a whopping £1015 for Rekindle!



Over the months we've followed Ruth's training journey through sun, rain and boggy fields. We've witnessed the difficult times but also the joy that running brings.

Thank you Ruth for all your hard work and dedication and to all those that donated and encouraged Ruth along the way.

## Diweddariad ar Ruth Can Run

Yn ein rhifyn diwethaf fe wnaethom rannu newyddion am her hunanosod Ruth i redeg hanner marathon, marathon llawn a marathon eithafol o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2023. Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod gwaith caled Ruth wedi talu ar ei ganfed ar ôl misoedd o hyfforddiant a pharatoi. Nid yn unig mae hi wedi cwblhau ei her bersonol ond mae hi hefyd wedi codi swm aruthrol o £1015 i Ail-ddeffro!

Dros y misoedd rydym wedi dilyn taith hyfforddi Ruth drwy haul, glaw a chaeau corsiog. Rydyn ni wedi gweld yr amseroedd anodd ond hefyd y llawenydd a ddaw yn sgil rhedeg.

Diolch Ruth am dy holl waith caled ac ymroddiad ac i bawb a gyfrannodd ac a anogodd Ruth ar hyd y ffordd.

## The Neville Thomas Memorial Fund

A special thank you to Neville's family and all those that have supported us through the fund.

Family, friends and colleagues of Neville Thomas KC have donated £4575 to Rekindle in his memory. The funds will allow us to continue offering a much-needed service to young people in Mid Wales and the Shropshire borders; a fitting tribute to Neville and his legacy.

## Cronfa Goffa Neville Thomas

Diolch arbennig i deulu Neville ac i bawb sydd wedi ein cefnogi drwy'r gronfa.

Mae teulu, ffrindiau a chydweithwyr Neville Thomas KC wedi rhoi £4575 i Ail-ddeffro er cof amdano. Bydd yr arian yn ein galluogi i barhau i gynnig gwasanaeth y mae mawr ei angen i bobl ifanc yn y Canolbarth a'r gororau yn Swydd Amwythig; teyrnged deilwng i Neville a'i etifeddiaeth.

We will be updating our website soon. In the meantime, you can still visit our original site at:

Byddwn yn diweddaru ein gwefan yn fuan. Yn y cyfamser, gallwch barhau i ymweld â'n gwefan wreiddiol yn:

**www.rekindle.org.uk**

## Visit from Craig Williams MP

Craig Williams visited us at the beginning of April to learn more about Rekindle. He discussed our services with Lizzie and briefly interviewed her for a Facebook video explaining who the charity supports and how young people and their families can get in touch.

Watch the video via Facebook

## LEGACY GIFTS -
### Leaving Rekindle a gift in your will

Contact us at the address below to find out more about the different types of gift and how you can help to keep young people talking about mental health.

## Newtown & Llallwchaiarn Community Awards April 2023

Lizzie and Jodie (pictured) represented Rekindle at the Newtown & Llallwchaiarn Community Awards 2023. This year's awards took place at the Theatre Hafren on the 19th April where the evening was opened by Cllr John Byrne, Mayor of Newtown. Rekindle was amongst the group of recipients of the Town Council Community Grant.

The community awards are held by the Town Council "to recognise and celebrate those individuals, groups and organisations who have made a positive impact over the last year to Newtown and the local area."





## Ymweliad gan Craig Williams AS

Daeth Craig Williams i ymweld â ni ddechrau mis Ebrill i ddysgu mwy am Ail-ddeffro. Bu'n trafod ein gwasanaethau gyda Lizzie ac yn ei chyfweld yn fyr ar gyfer fideo Facebook yn egluro pwy mae'r elusen yn ei gefnogi a sut y gall pobl ifanc a'u teuluoedd gysylltu â ni.

Gwyliwch y fideo trwy Facebook

## RHODDION ETIFEDDIAETH
### Gadael rhodd i Rekindle yn eich ewyllys.

Cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad isod i gael gwybod mwy am y gwahanol fathau o roddion a sut y gallwch helpu i gadw pobl ifanc i siarad am iechyd meddwl.

## Gwobrau Cymunedol Y Drenewydd a Llanllwchaearn Ebrill 2023

Cynrychiolodd Lizzie a Jodie (yn y llun uchod) Ail-ddeffro yng Ngwobrau Cymunedol Y Drenewydd a Llanllwchaearn 2023. Cynhaliwyd y gwobrau eleni yn Theatr Hafren ar 19 Ebrill ac agorwyd y noson gan y Cynghorydd John Byrne, Maer y Drenewydd. Roedd Ail-ddeffro ymhlith y grŵp o dderbynwyr Grant Cymunedol y Cyngor Tref.

Mae'r gwobrau cymunedol yn cael eu cynnal gan y Cyngor Tref "i gydnabod a dathlu'r unigolion, grwpiau a sefydliadau hynny sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y Drenewydd a'r ardal leol dros y flwyddyn ddiwethaf."

## Volunteering Opportunities

We are currently recruiting for the following volunteer positions:

ADMIN ASSISTANT – SOCIAL MEDIA
Working with the team to support with Rekindle's dual language social media posts via: Facebook/Instagram/Linked-In/Twitter. To help us maintain an engaging and up to date presence on the platforms, in addition to following and engaging with related content from third-party and professional organisations associated with mental health and mental health for 16-25 year olds. If non-Welsh speaking the volunteer will also be required to work with a translator. All posts and engagement to be in line with the charity ethos and brand in addition to our funders' guidance on communications (where applicable).

Flexible working opportunity. Minimum of one hour per week, initially based in our office in Newtown with potential to work remotely/from home (subject to discussion).

RECEPTIONIST AND ADMIN SUPPORT
A confident, warm and welcoming person to meet and greet our clients in person and over the telephone from our office premises based in Newtown. Welsh speaking is desirable but not essential. Volunteer would be respectful of client confidentiality and willing to get involved in some day-to-day administration of the charity using MS Word/Outlook/Excel.

Flexible working opportunity. Minimum of two hours per week with potential to increase, located in our office in Newtown.

TRANSLATOR – WELSH LANGUAGE
A volunteer with a good command of written Welsh and English to translate and proof read Rekindle news articles, social media posts, website content and marketing material. To work with our administrator and volunteer admin assistant who will provide the



## Cyfleoedd Gwirfoddoli

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi gwirfoddol canlynol:

CYNORTHWYYDD GWEINYDDOL – CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
Gweithio gyda'r tîm i gefnogi postiadau cyfryngau cymdeithasol dwyieithog Ail-ddeffro trwy: Facebook/Instagram/Linked-In/Twitter. I'n helpu i gynnal presenoldeb deniadol a chyfredol ar y llwyfannau, yn ogystal â dilyn ac ymgysylltu â chynnwys cysylltiedig gan sefydliadau trydydd parti a phroffesiynol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed. Os nad yw'n siarad Cymraeg bydd gofyn i'r gwirfoddolwr hefyd weithio gyda chyfieithydd. Rhaid i bob postiad ac ymgysylltiad fod yn unol ag ethos a brand yr elusen yn ogystal â chanllawiau ein cyllidwyr ar gyfathrebu (lle bo'n berthnasol).

Cyfle gweithio hyblyg. Lleiafswm o awr yr wythnos, wedi'i leoli i ddechrau yn ein swyddfa yn y Drenewydd gyda'r potensial i weithio o bell/gartref (yn amodol ar drafodaeth).

DERBYNNYDD A CHEFNOGAETH WEINYDDOL
Person hyderus, twymgalon a chroesawgar i gwrdd a chyfarch ein cleientiaid wyneb yn wyneb a thros y ffôn o'n swyddfa yn y Drenewydd. Mae siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol. Byddai'r gwirfoddolwr yn parchu cyfrinachedd cleientiaid ac yn barod i gymryd rhan mewn rhywfaint o waith gweinyddol yr elusen o ddydd i ddydd gan ddefnyddio MS Word/Outlook/Excel.

Cyfle gweithio hyblyg. Lleiafswm o ddwy awr yr wythnos gyda photensial i gynyddu, wedi'i leoli yn ein swyddfa yn y Drenewydd.

CYFIEITHYDD – IAITH GYMRAEG
Gwirfoddolwr gyda meistrolaeth dda ar Gymraeg a Saesneg ysgrifenedig i gyfieithu a phrawf

items for translation on an ad-hoc basis for turn-around within an agreed timescale.

Flexible working opportunity for remote/home working at times best suited to the volunteer.

Ideal for someone to work from home, evenings etc.

The hours listed above are open to discussion and can be arranged to work around existing commitments where possible. Needless to say, tea, coffee and a warm welcome will be provided.

If you would like to discuss any of the above, or for more information on these roles, please email Jodie at Jodie.Hughes@rekindle.org.uk

In addition to these roles, we are also on the look-out for volunteers to run activities for our clients. As Lizzie has previously mentioned, our activities programme will open up again later in the year and will consist of yoga classes, cooking classes and motivational support around physical activity and nutrition. If you run workshops, courses, or training etc. and would like to join our activities volunteers, please do get in touch.



ddarllen erthyglau newyddion, postiadau cyfryngau cymdeithasol, cynnwys gwefan a deunydd marchnata Ail-ddeffro. Gweithio gyda'n gweinyddwr a'n cynorthwyydd gweinyddol gwirfoddol a fydd yn darparu'r eitemau i'w cyfieithu ar sail ad-hoc i'w cwblhau o fewn amserlen y cytunwyd arni.

Cyfle gweithio hyblyg ar gyfer gweithio o bell/gartref ar yr adegau sydd fwyaf addas i'r gwir-foddolwr.

Yn ddelfrydol i rywun weithio gartref, gyda'r nos ac ati.

Mae'r oriau a restrir uchod yn agored i dra-fodaeth a gellir eu trefnu i weithio o amgylch ymrwymiadau presennol lle bo modd. Nid oes angen dweud, bydd te, coffi a chroeso cynnes ar gael.

Os hoffech drafod unrhyw un o'r uchod, neu am ragor o wybodaeth am y rolau hyn, anfonwch e-bost at Jodie yn Jodie.Hughes@rekindle.org.uk

Yn ogystal â'r rolau hyn, rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i gynnal gweithgareddau ar gyfer ein cleientiaid. Fel y soniodd Lizzie eisoes, bydd ein rhaglen weithgareddau yn agor eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn a bydd yn cynnwys dosbarthiadau ioga, dosbarthiadau coginio a chymorth ysgogol ynghylch gweithgaredd corfforol a maeth. Os ydych yn cynnal gweithdai, cyrsiau, neu hyfforddiant ac ati ac yr hoffech ymuno â'n gwirfoddolwyr gweithgareddau, cysylltwch â ni.

## Donate

To donate, simply scan the code or visit:


## Cyfrannu

I gyfrannu, sganiwch y cod neu ewch i:

www.justgiving.com/rekindlehome

## Art Workshop Activity
## February – April 2023

This ten-week programme of art activities was arranged by Kate Morgan-Clare at the Oriel Davies centre. The course was attended by Rekindle clients who were accompanied by a member of the Rekindle team, and tutors, Cai Tomos and Emma Beynon. The activities included drawing, writing poetry and making short films and proved to be an overwhelming hit with the participants and staff alike. Over the weeks the clients showed a great willingness to participate and engage, as well as proving they have a wealth of creative talent. We were all very proud of their achievements over the ten weeks and know that they were too!



Images from a session in March where the participants looked at making and responding to forgottenplaces/unseen places in the space.

After each workshop our tutors conducted an evaluation with the clients. Below is a sample of some answers to the following question:

*What is the one thing that is going to stay with you, something you will remember about this workshop?*

**"Trying new things. Seeing others' perspectives."**

**"I notice my surroundings more, and can look at things from a creative way instead of being factual all the time."**

## Gweithgaredd Gweithdy Celf
## Chwefror – Ebrill 2023

Trefnwyd y rhaglen ddeg wythnos hon o weithgareddau celf gan Kate Morgan-Clare yng nghanolfan Oriel Davies. Mynychwyd y cwrs gan gleientiaid Ail-ddeffro a oedd yng nghwmni aelod o dîm Ail-ddeffro, a'r tiwtoriaid, Cai Tomos ac Emma Beynon. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys tynnu lluniau, ysgrifennu barddoniaeth a gwneud ffilmiau byr a bu'n llwyddiant ysgubol gyda'r cyfranogwyr a'r staff fel ei gilydd. Dros yr wythnosau, dangosodd y cleientiaid barodrwydd mawr i gymryd rhan ac ymgysylltu yn ogystal â phrofi bod ganddynt gyfoeth o dalent greadigol. Roeddem i gyd yn falch iawn o'u llwyddiannau dros y deg wythnos ac yn gwybod eu bod nhw yn hefyd!


Delweddau o sesiwn ym mis Mawrth lle bu'r cyfranogwyr yn edrych ar wneud ac ymateb i leoedd anghofiedig / lleoedd anweledig yn y gofod.


*Ar ôl pob gweithdy, cynhaliodd ein tiwtoriaid werthusiad gyda'r cleientiaid. Isod mae sampl o rai atebion i'r cwestiwn canlynol:*

*Beth yw'r un peth sy'n mynd i aros gyda chi, rhywbeth y byddwch chi'n ei gofio am y gweithdy hwn?*

**"Rhoi cynnig ar bethau newydd. Gweld safbwyntiau eraill."**

**"Rwy'n sylwi mwy ar yr hyn sydd o'm cwmpas, ac yn gallu edrych ar bethau o ffordd greadigol yn hytrach na bod yn ffeithiol drwy'r amser."**





## Client Testimonial

Hearing our clients talk about their journey with us is often a rewarding and humbling experience. The following testimonial is from a client who completed a series of counselling sessions in April this year:

"I started going to Rekindle six years ago when I was seventeen. During that period I have changed tremendously, for the better and I have Rekindle to thank. I have had a consistent and safe place to voice my problems and not feel judged. I have been challenged in a healthy way to change my perspective, and look at things differently. Overall, I am much happier and grounded in myself. I can tackle any issues I come across with much more confidence."

Anonymous
25/04/23

## Tysteb Cleient

Mae clywed ein cleientiaid yn siarad am eu taith gyda ni yn aml yn brofiad gwerth chweil a gostyngedig. Daw'r dysteb ganlynol gan gleient a gwblhaodd gyfres o sesiynau cwnsela ym mis Ebrill eleni:

"Dechreuais fynd i Ail-ddeffro chwe blynedd yn ôl pan oeddwn yn ddwy ar bymtheg. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rwyf wedi newid yn aruthrol, er gwell a hoffwn ddiolch i Ail-ddeffro am hynny. Rwyf wedi cael lle cyson a diogel i leisio fy mhroblemau heb deimlo fy mod yn cael fy marnu. Rwyf wedi cael fy herio mewn ffordd iach i newid fy safbwynt, ac edrych ar bethau'n wahanol. Ar y cyfan, rwy'n llawer hapusach ac wedi fy seilio ynof fy hun. Gallaf fynd i'r afael ag unrhyw faterion y deuaf ar eu traws â llawer mwy o hyder."

Anhysbys
25/04/23

## Thank You to Our Donors and Funders

We would like to thank all of the friends of Rekindle who have supported us with one-off donations and those who give regularly throughout the year. We would also like to thank the organisations, foundations and trusts that have awarded us grants and funding. The services and operations of Rekindle are reliant on these funds, as well as the generosity of our private donors - we simply couldn't do it without you.

## Diolch i'n Rhoddwyr a'n Cyllidwyr

Hoffem ddiolch i holl ffrindiau Ail-ddeffro sydd wedi ein cefnogi gyda rhoddion untro a'r rhai sy'n rhoi'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Hoffem hefyd ddiolch i'r mudiadau, y sefydliadau a'r ymddiriedolaethau sydd wedi dyfarnu grantiau a chyllid i ni. Mae gwasanaethau a gweithrediadau Ail-ddeffro yn ddibynnol ar y cronfeydd hyn, yn ogystal â haelioni ein rhoddwyr preifat - yn syml iawn, ni allem ei wneud heboch chi.

Gwendoline and Margaret Davies Charity | Lloyds Bank Foundation England & Wales | the Tudor trust | Cae Post | Tuffins

Above: Foundations and trusts that have awarded us funding since April this year.

Uchod: Sefydliadau ac ymddiriedolaethau sydd wedi dyfarnu cyllid i ni ers mis Ebrill eleni.

## Join The Trustees - Networking

Rekindle trustees provide a wealth of expertise and experience which enables the charity to operate and plan effectively. We would now like to expand the team with a trustee dedicated to networking and expanding our community links. This trustee would advocate for the charity, looking for opportunities to engage the community and assist with the development of the Friends of Rekindle. In addition to ad-hoc availability to network, the trustee would be required to attend the Rekindle Board of Trustees quarterly meeting and annual AGM. If you would like to discuss this position and the responsibilities of a trustee, please contact Robin Brierley -
Robin.Brierley@rekindle.org.uk

## A Final Word from Jodie

I feel incredibly grateful to be part of an ever growing and developing team that is Rekindle. Since joining the organisation in November 2022, I have been privileged to meet and work with many young people as Counsellor and have felt supported within a well-rounded team of staff members and trustees.

It is exciting for me to take up the mantle from Lizzie as Service Delivery Manager over the coming months. This period will see Rekindle through its next stage of growth and development as we continue to expand our services and support to young people in our local area.

I look forward to being able to update you on how the organisation continues to evolve over the coming months and I am increasingly grateful for all the support Rekindle continues to receive.

*Jodie*

Jodie Hughes, Service Delivery Manager
(Maternity Cover)

## Ymunwch â'r Ymddiriedolwyr - Rhwydweithio

Mae ymddiriedolwyr Rekindle yn darparu cyfoeth o arbenigedd a phrofiad sy'n galluogi'r elusen i weithredu a chynllunio'n effeithiol. Hoffem nawr ehangu'r tîm gydag ymddiriedolwr sy'n ymroddedig i rwydweithio ac ehangu ein cysylltiadau cymunedol. Byddai'r ymddiriedolwr hwn yn eirioli dros yr elusen, gan chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a chynorthwyo gyda datblygiad Cyfeillion Rekindle. Yn ogystal ag argaeledd ad-hoc i rwydweithio, byddai'n ofynnol i'r ymddiriedolwr fynychu cyfarfod chwarterol Bwrdd Ymddiriedolwyr Rekindle a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Os hoffech drafod y swydd hon a chyfrifoldebau ymddiriedolwr, cysylltwch â Robin Brierley -
Robin.Brierley@rekindle.org.uk

## Gair Olaf gan Jodie

Rwy'n teimlo'n hynod ddiolchgar i fod yn rhan o dîm sy'n tyfu ac yn datblygu o hyd, sef Ail-ddeffro. Ers ymuno â'r sefydliad ym mis Tachwedd 2022, mae wedi bod yn fraint cyfarfod a gweithio gyda llawer o bobl ifanc fel Cwnselydd ac rwyf wedi teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi o fewn tîm cyflawn o aelodau staff ac ymddiriedolwyr.

Mae'n gyffrous i mi dderbyn y fantell gan Lizzie fel Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau dros y misoedd nesaf. Bydd y cyfnod hwn yn gweld Ail-ddeffro yn symud trwy ei gyfnod nesaf o dwf a datblygiad wrth i ni barhau i ehangu ein gwasanaethau a chymorth i bobl ifanc yn ein hardal leol.

Edrychaf ymlaen at allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am sut mae'r sefydliad yn parhau i esblygu dros y misoedd nesaf ac rwy'n gynyddol ddiolchgar am yr holl gefnogaeth y mae Ail-ddeffro yn parhau i'w chael.

*Jodie*

Jodie Hughes, Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau
(Cyfnod Mamolaeth)